Working for **Equality** in Wales

## Templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 1

| | |
|---|---|
| **Teitl y polisi a'i ddiben (amlinelliad cryno):** | **Polisi Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) ar gyfer Cymru** |
| **Enw'r swyddog:** | **Helen Scaife** |
| **Adran:** | **Yr Adran Addysg a Sgiliau** |
| **Dyddiad:** | **12 Mawrth 2014** |
| **Llofnod:** | |

1. **Rhowch ddisgrifiad cryno o'r polisi/penderfyniad. Er enghraifft, beth yw amcan cyffredinol y polisi/penderfyniad, beth yw'r nodau a bennwyd (yn cynnwys pwy yw'r buddiolwyr arfaethedig), disgrifiad bras o sut y cyflawnir hyn, beth fydd yn mesur llwyddiant, a'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn?**

Mae'r Polisi Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill ar gyfer Cymru yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu ESOL i ddysgwyr yng Nghymru, ac yn rhoi cyfeiriad i'r sector wrth iddynt bennu blaenoriaethau darparu.

2. **Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler Atodiad A o'r canllawiau ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) y nodir eu bod yn berthnasol i'r polisi. Pa gamau a roddwyd ar waith gennych i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol?**

Datblygwyd y polisi drwy ymgynghori'n llawn â'r sector. Mae Bwrdd Cynghori ESOL, sy'n cynnwys arbenigwyr o'r sector, wedi llywio'r broses o ddatblygu'r polisi. Sefydlwyd wyth gweithgor, yn cynnwys cynrychiolwyr o dros 50 o randdeiliaid ar draws y sector, a fu'n edrych ar agweddau penodol ar y polisi. Cynhaliwyd digwyddiadau yn y gogledd a'r de er mwyn rhoi cyfle i gynrychiolaeth ehangach o randdeiliaid, gan gynnwys tiwtoriaid, ymwneud â'r broses o ddatblygu'r polisi. Ymgynghorodd rhai rhanddeiliaid â chynrychiolwyr o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, ceiswyr lloches a ffoaduriaid wrth baratoi eu cyfraniadau i'r ymgynghoriad.

3. **Rhaid i chi seilio eich penderfyniadau ar dystiolaeth gadarn. Pa sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych? Rhestrwch ffynhonnell y dystiolaeth e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru. A ystyriwch chi fod y dystiolaeth yn gryf, yn foddhaol neu'n wan ac a oes yna fylchau yn y dystiolaeth?**

Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd wedi cael ei chasglu gan arbenigwyr yn y sector, ac mae'n cynnwys adroddiadau ac ymchwil a wnaethpwyd ar ran Llywodraeth Cymru. Defnyddiwyd adroddiadau allanol gan arbenigwyr yn y maes hefyd. Mae rhestr o'r holl ddogfennau y cyfeirir atynt yn y polisi i'w gweld yn Atodiad A i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
Codwyd data ar gyfer y polisi o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Credaf fod y dystiolaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer y polisi hwn yn gryf.

**Effaith – A ydych chi’n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl:**

### 4.1 Oherwydd eu hoed?

| Oed | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Pobl iau (*Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed*) | | | ✓ | Mae’r polisi hwn wedi’i anelu at oedolion felly ni fydd yn cael llawer o effaith ar bobl ifanc. Bydd rhywfaint o effaith ar blant oedolion sy’n cael eu helpu gan y polisi hwn ond ni fyddai’n bosibl cael tystiolaeth effeithiol o’r effaith hon. |
| Pobl 18- 50 oed | ✓ | | | |
| Pobl hŷn (50+) | ✓ | | | |

### 4.2 Oherwydd eu bod yn anabl?

| Nam | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Nam ar y golwg | | | ✓ | Nid oes digon o ddata i ni allu dweud a fydd y polisi hwn yn cael effaith sylweddol ar y grŵp hwn. Mae ESOL ar gael i’r grwpiau hyn. |
| Nam ar y clyw | | | ✓ | |
| Anabledd corfforol | | | ✓ | |
| Anabledd dysgu | | | ✓ | |
| Problem iechyd meddwl | | | ✓ | |
| Namau eraill | | | ✓ | |

## 4.3 Oherwydd eu rhyw (dyn neu ddynes)?

| Rhyw | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Gwryw | | | ✓ | Ar hyn o bryd mae mwy o ferched nag o ddynion yn defnyddio'r ddarpariaeth ESOL – 4,493 o ferched o'i gymharu â 2,856 o ddynion yn 2011/12. Bydd cynyddu cefnogaeth i'r ddarpariaeth ESOL felly'n cael effaith ar fwy o ferched nag o ddynion. |
| Benyw | ✓ | | | |

## 4.4 Oherwydd eu bod yn drawsrywiol?

| Trawsrywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| | | | ✓ | Nid ydym yn cadw data ynglŷn â hyn. Ni fyddai effaith uniongyrchol ar y grŵp hwn. Mae ESOL ar gael i'r grŵp hwn. |

## 4.5 Oherwydd eu priodas neu bartneriaeth sifil?

| Priodas a Phartneriaeth Sifil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Priodas | | | ✓ | Nid yw'r polisi'n cael effaith uniongyrchol ar statws priodasol unigolyn – er hyn, mae nifer fawr o'r mewnfudwyr sy'n defnyddio'r ddarpariaeth ESOL yn briod â phreswylwyr y Deyrnas Unedig. Mae ESOL ar gael i'r grwpiau hyn. |
| Partneriaeth Sifil | | | ✓ | |

### 4.6 Oherwydd eu beichiogrwydd neu famolaeth?

| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd | | | ✓ | Dengys tystiolaeth a ddarparwyd gan y gwasanaeth Bydwreigiaeth bod merched nad ydynt yn siarad Saesneg yn fwy tebygol o ddioddef cymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd. Gallai dosbarthiadau ESOL helpu rhai o'r merched hyn i ymwneud yn fwy effeithiol â'r gwasanaethau meddygol, ond byddai'n anodd cael tystiolaeth o hyn. Mae ESOL ar gael i'r grwpiau hyn. |
| Mamolaeth (y cyfnod ar ôl geni) | | | ✓ | |

## 4.7 Oherwydd eu hil?

| Hil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Pobl o leiafrif ethnig (e.e. Asiaidd, Du) | ✓ | | | Mae ychydig bach mwy o ddysgwyr ESOL yn dod o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig.  Yn ôl data 2011/12, roedd 3,687 o ddysgwyr yn cyfeirio atynt eu hunain fel rhai nad oeddent yn wyn, o'i gymharu â 3,159 a oedd yn cyfeirio atynt eu hunain fel pobl wyn. Byddai cynyddu'r gefnogaeth i ddysgwyr ESOL yn cael effaith benodol ar y grŵp hwn. |
| Tarddiad Cenedlaethol (e.e. Cymreig, Seisnig) | | ✓ | | Gellid dadlau y gallai neilltuo rhagor o gyllid ac adnoddau ar gyfer ESOL olygu bod llai o gyllid ac adnoddau ar gael ar gyfer y ddarpariaeth brif ffrwd. |
| Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid | ✓ | | | Mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn grŵp targed ar gyfer darpariaeth ESOL. Nid yw Cymru'n gorfodi'r un cyfyngiadau ar gyfer defnyddio'r ddarpariaeth â Lloegr ac mae hynny'n golygu bod y grŵp hwn yn cael llawer mwy o fynediad at ddarpariaeth. |
| Sipsiwn a Theithwyr | | | ✓ | Nid oes llawer o dystiolaeth i ddangos bod Sipsiwn a Theithwyr yn defnyddio darpariaeth ESOL. |
| Mudwyr | ✓ | | | Mewnfudwyr yw'r rhan fwyaf o'r dysgwyr ESOL. Mae'r polisi'n cydnabod yr effaith aruthrol y gall ESOL ei gael drwy alluogi mewnfudwyr i ddefnyddio gwasanaethau a chystadlu'n effeithiol yn y gweithle. Mae ESOL wedi'i anelu tuag at fewnfudwyr sy'n bwriadu setlo yn y DU. |
| Eraill | | | ✓ | Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr ESOL yn ffitio i mewn i un o'r categorïau a restrwyd uchod. |

### 4.8 Oherwydd eu crefydd a'u cred neu ddiffyg cred?

| Crefydd a chred neu ddiffyg cred | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Gwahanol grwpiau crefyddol yn cynnwys Mwslimiaid, Iddewon, Cristnogion, Sikhiaid, Bwdhyddion, Hindŵiaid, Eraill (nodwch) | | | ✓ | Mae nifer fawr o ddysgwyr ESOL yn dod o gymunedau sydd â chysylltiadau crefyddol cryf. Dengys tystiolaeth y gall ESOL helpu i greu mwy o integreiddio rhwng cymunedau. Er hyn, nid ydym yn casglu data am grefydd a chred felly nid oes gennym dystiolaeth i adlewyrchu'r effaith bosibl yn gywir. Mae ESOL ar gael i'r grwpiau hyn. |
| Cred e.e. Dyneiddwyr | | | ✓ | |
| Diffyg cred | | | ✓ | |

### 4.9 Oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol?

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Dynion hoyw | | | ✓ | Nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai'r polisi'n cael effaith ar y maes hwn. Mae ESOL ar gael i'r grwpiau hyn. |
| Lesbiaid | | | ✓ | |
| Deurywiol | | | ✓ | |

### 4.10 A ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl? *Gweler pwynt 1.4 o Atodiad A yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Canllawiau ar ddod o hyd i wybodaeth bellach am Hawliau Dynol.*

| Hawliau Dynol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Hawliau Dynol yn cynnwys Deddf Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig | ✓ | | | Drwy sicrhau bod ESOL yn cael ei drin yr un fath â Sgiliau Hanfodol byddai gan bob unigolyn hawl i gael mynediad at gyrsiau ESOL fel ag y mae ganddynt hawl i addysg Sgiliau Sylfaenol. |

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 2

**1. Gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasgloch ac a ystyriwyd gennych yn Rhan 1, ystyriwch y canlynol:**

| **1.1 Sut y gallai, neu sut y mae'r polisi'n helpu i wella / hyrwyddo cyfle cyfartal?**<br><br>Er enghraifft, mesurau cadarnhaol a luniwyd i fynd i'r afael ag anfantais a chyrraedd gwahanol gymunedau neu grwpiau gwarchodedig? |
|---|
| Nod y polisi ESOL yw gwella darpariaeth a chefnogaeth i ESOL yng Nghymru. Mae mwy o ferched nag o ddynion yn defnyddio ESOL ar hyn o bryd, ac mae mwy o ddysgwyr yn dod o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig. O ganlyniad, bydd gwella'r ddarpariaeth hon yn cael effaith gadarnhaol ar y grwpiau hyn o ddysgwyr. Mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Saesneg yn cael ei ystyried yn elfen allweddol er mwyn galluogi'r bobl hyn i fod yn rhan o gymdeithas ac economi'r Deyrnas Unedig. Roedd diffyg sgiliau Saesneg yn cael ei weld fel rhwystr allweddol a oedd yn atal integreiddio a chyflogaeth. (*Poverty and Ethnicity in Wales*; Holtom, Bottrill a Watkins; JRF Hydref 32013). Bydd gwella darpariaeth a chefnogaeth i ESOL yng Nghymru'n helpu i wella integreiddiad, cydlyniant cymunedol a chyflogadwyedd. |
| **1.2 Sut y gallai / sut y mae'r polisi / penderfyniad yn helpu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth?** |
| Gall methu â chyfathrebu yn Saesneg wneud unigolion yn fwy agored i wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth. Bydd gwella darpariaeth a chefnogaeth i ESOL yn helpu i wella'r sefyllfa hon. |
| **1.3 Sut y gallai / sut y mae'r polisi'n effeithio ar wella / hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?** |
| Bydd gwella mynediad at ESOL yn helpu i hyrwyddo cydlyniant cymunedol ehangach. Mae iaith yn un rhwystr sy'n atal integreiddio cymdeithasol felly bydd gwella'r ddarpariaeth ESOL yn help i wella hyn, fel y nodir yn Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru yn ogystal â'r Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r polisi ESOL yn ymateb i'r ymrwymiadau yn y cynlluniau hyn drwy argymell camau i wella cefnogaeth ac ansawdd y ddarpariaeth ESOL yng Nghymru. |

## 2. Cryfhau'r polisi

| |
|---|
| **2.1 Os yw'r polisi'n debygol o gael effaith negyddol (niweidiol) ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig neu ar gysylltiadau da, beth yw'r rhesymau am hyn?**<br><br>**Pa newidiadau / camau ymarferol allai helpu i leihau neu gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn Rhan 1?** |
| Mae'r polisi'n cynnwys cyfeiriad at y cynigion i gyflwyno polisi ariannu ar y cyd ar gyfer y ddarpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru - bydd hyn yn cynnwys dysgwyr ESOL. Bydd asesiad o'r effaith ar grwpiau unigol yn cael ei wneud fel rhan o'r polisi ariannu ar y cyd fel y mae'n cael ei ddatblygu. |
| **2.2 Os na roddir unrhyw gamau ar waith i ddileu neu liniaru effaith negyddol / niweidiol, rhowch resymau pam.**<br><br>**(Cofiwch, os ydych chi wedi canfod gwahaniaethu anghyfreithlon (uniongyrchol neu bosibl) o ganlyniad i'r polisi, rhaid newid neu adolygu'r polisi.)** |
| Mae cyllid gan y Llywodraeth ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned wedi cael ei gwtogi'n sylweddol. Bydd hyn yn effeithio ar ddysgwyr ESOL, ond ni fydd yr effaith arnynt hwy'n fwy nag ar unrhyw grŵp arall. Mae'n anodd dweud ar hyn o bryd beth yn union fydd yr effaith ar grŵp unigol o ddysgwyr. Bydd swyddogion yn gweithio gyda darparwyr er mwyn monitro'r effaith a datblygu agwedd gynaliadwy tuag at ddarparu a chyllido Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn y dyfodol. |

## 3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

| |
|---|
| **Sut yr ewch chi ati i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi?**<br><br>Rhestrwch fanylion unrhyw waith dilynol sy'n mynd i gael ei gyflawni mewn perthynas â'r polisi (e.e. ymgyngoriadau, monitro penodol ac ati). |
| Bydd y data a gesglir yn flynyddol o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn cael eu monitro er mwyn gweld pa effaith y mae'r polisi wedi'i gael ar ddarparu ESOL. Bydd y Grŵp Cynghori ESOL yn dal mewn bodolaeth a bydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i roi'r polisi newydd ar waith. Byddant yn darparu arbenigedd a phrofiad gwerthfawr o ddarparu ESOL, ac yn gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' gan herio'r gwaith o ddatblygu a darparu ESOL yng Nghymru. |
| Bydd canlyniadau pob asesiad o effaith lle mae'r effaith yn sylweddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. |
| |

## 4. Datganiad

**Mae'r polisi'n effeithio ar faterion cydraddoldeb.**

| |
|---|
| **Y swyddog sy'n cyflawni'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** |
| Enw: Helen Scaife |
| |
| Adran: Yr Adran Addysg a Sgiliau |
| |
| Dyddiad: 12 Mawrth 2014 |
| |
| Llofnod: |
| |
| **Pennaeth Adran (Llofnod)** |
| Enw: Andrew Clark |
| |
| Teitl swydd ac adran: Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau |
| |
| Dyddiad:12 Mawrth 2014 |
| |
| Llofnod: |
| |
| Dyddiad Adolygu: |

## Cyfeiriadau yn y Polisi ESOL ar gyfer Cymru

Alexander, C, Edwards, R, a Temple, B. 2004. *Access to services with interpreters*. Sefydliad Joseph Rowntree.

Cyfrifiad 2011. www.ONS.gov.uk

Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. 2013. *Evaluation of the impact of learning below Level 2*. Hawlfraint y Goron.

Yr Adran Iechyd. 2003. *Getting the Right Start: National Service Framework for Children.* Hawlfraint y Goron.

Estyn. 2008. *Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill: Effaith y galw cynyddol*. Hawlfraint y Goron.

GHK Consulting a Map Analysis Ltd. 2010. *Review of the Provision of English for speakers of other languages in Wales*. Hawlfraint y Goron.

Holtom, D, Bottrill, I, a Watkins, J. 2013. *Poverty and Ethnicity in Wales.* Sefydliad Joseph Rowntree.

Lewis, G. 2011. *Saving Mothers' Lives: Reviewing Maternal Deaths to make motherhood safer: 2006-2008*. Y Ganolfan Ymholiadau Mamau a Phlant (CMACE)

Schellekens, P. 2011. *Teaching and Testing the Language Skills of First and Second Language Speakers.* Caergrawnt: ESOL Caergrawnt

Gweithrediaeth yr Alban. 2007. *The Adult ESOL Strategy for Scotland*. Hawlfraint y Goron

*Teacher's Guide to the Common European Framework*, Pearson Longman.